

## Teithio Ymlaen: Swyddog Ymgysylltu

TGP Cymru yw'r brif elusen yng Nghymru sy'n cefnogi ac yn cynrychioli plant a phobl ifanc agored i niwed drwy amrywiaeth o brosiectau, hyfforddiant ac ymgyrchu. Mae gwasanaethau TGP Cymru yn cael eu hariannu gan nifer o gyllidwyr ac maent yn darparu gwasanaethau ledled Cymru.



**Adran TGP Cymru:** Family Services

**Yn atebol i:** Rheolwr Tîm

**Location:** Wrecsam, Gogledd Cymru (Gweithio gartref yn ystod mesurau Covid-19)

### Diben y Swydd:

Wedi'i chyllido gan Raglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru mae'r prosiect yn darparu gwasanaeth i gefnogi cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ledled Cymru (plant, pobl ifanc ac oedolion) i fanteisio ar eu hawliau, ymdrin ag anghydraddoldebau ac ymdrin â gwahaniaethu.

Mae gan dîm Teithio Ymlaen Reolwr Tîm gyda thri Swyddog Ymgysylltu ychwanegol yn Ne, Gorllewin a Gogledd Cymru gyda chanolfan y prif dîm yng Nghaerdydd a swyddfa yn Wrecsam. Rydym ni hefyd yn cynnal gwasanaeth cyngori a chymorth i deuluoedd Roma yr UE ledled Cymru wneud cais am statws sefydlog yn y DU.

Yn y swydd Swyddog Ymgysylltu hon byddwch yn gweithio fel rhan o'r tîm ledled ardaloedd awdurdodau lleol Gogledd Cymru yn ôl yr angen - gan gynnig cyngor ac eiriolaeth a chefnogi lleisiau unigolion, teuluoedd a phreswylwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

### Atebolrwyddau / Cyfrifoldebau

- Cymryd cyfrifoldeb am ddatblygu elfennau o waith y Gwasanaeth yn unol â chyfarwyddyd y Rheolwr Tîm.
- Paratoi / Annog / Cefnogi / Galluogi aelodau'r gymuned a gweithwyr proffesiynol Sipsiwn, Roma a Theithwyr i ymgysylltu a chyflawni'r canlyniadau y maen nhw'n eu dymuno.
- Gweithio mewn partneriaeth ag aelodau'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr gan sicrhau bod eu lleisiau'n ganolog i'r broses
- Codi ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a brwdfrydedd dros waith y Gwasanaeth, ymhlith y gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol.
- Cysylltu a thrafod â gweithwyr proffesiynol perthnasol i sicrhau bod swyddogaethau, cyfrifoldebau, disgwyliadau a chyfraniadau yn cael eu trefnu, eu deall a'u gweithredu'n glir.
- Sicrhau bod cyfle cyfartal ac arferion gwrthwahanethol yn cael eu cynnal, a bod safonau TGP Cymru yn hyn o beth yn cael eu defnyddio.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Tîm i asesu allbynnau'r Gwasanaeth o'u cymharu â fframwaith y canlyniadau y cytunwyd arnynt drwy fonitro gweithgarwch a chasglu gwybodaeth briodol gan gynnwys adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth.

- Sicrhau bod pryderon sy'n codi ynghylch diogelu yn cael eu nodi a bod penderfyniadau priodol yn cael eu gwneud ynghylch asesu risg ac atgyfeirio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol / asiantaethau priodol eraill o dan oruchwyliaeth y Rheolwr Tîm
- Sicrhau bod Ymyriadau yn cael eu rheoli yn eu dyraniad y cytunwyd arno.
- Cydymffurfio â systemau ariannol a gweinyddu'r Gwasanaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau TGP Cymru.
- Sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw yn unol â pholisïau a gweithdrefnau TGP Cymru ar gyfer cofnodi, rheoli data ac amddiffyn plant.
- Cynnal cyfrinachedd o ran yr wybodaeth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gweithwyr proffesiynol yn unol â pholisïau TGP Cymru.
- Rhwydweithio yn briodol yn y gymuned.
- Cyfrannu at fforymau polisi a chynllunio lleol pan fo hynny'n briodol.
- Cydweithio â chydweithwyr.
- Cymryd cyfrifoldeb am eich datblygiad proffesiynol eich hun a chyflawni hyfforddiant priodol yn ôl y gofyn.
- Unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau eraill y mae'n rhesymol i'r Sefydliad ofyn amdanynt ac sy'n gyson â gradd.

#### **Dangosyddion Perfformiad**

- Yn gyfrifol am gyflawni dangosyddion perfformiad a safonau arfer allweddol
- Ansawdd gwasanaeth a chydymffurfiaeth yn erbyn safonau a gofynion statudol, rheoliadol, sefydliadol ac arfer gorau
- Cyflawni amcanion a thargedau gwasanaeth ac unigol

#### **Cyfrifoldeb rheoli llinell**

0

#### **Cyfrifoldeb rheoli'r gyllideb**

£0

**Gradd:** MS6

#### **Amodau gwaith:**

30 awr yr wythnos gydag agwedd hyblyg tuag at yr wythnos waith. Efallai y bydd angen gweithio y tu allan i oriau swyddfa sy'n gofyn am agwedd hyblyg o ran ymdrin â'r wythnos waith. Yn achlysurol, efallai y bydd angen gweithio ar y penwythnos ac aros dros nos i fanteisio ar hyfforddiant / cynadleddau / digwyddiadau neu debyg.

Yn ystod Covid-19 mae mesurau ar waith i sicrhau diogelwch staff a chleientiaid – sy'n gofyn bod staff yn **gweithio gartref** a bydd cyfathrebu â chleientiaid a phartneriaid yn digwydd dros y ffôn, ar e-bost a thrwy dulliau digidol eraill. Mae proses asesu risg ar waith i awdurdodi gwaith wyneb yn wyneb wrth i Fesurau Covid gael eu codi.

Bydd angen teithio i wahanol leoliadau ledled Cymru a'r DU hefyd.

## Cymwysterau

- Cymhwyster proffesiynol mewn gwaith cymdeithasol, gwaith ieuenctid a chymunedol, neu ddisgyblaeth gysylltiedig fel Iechyd ac Addysg (dymunol)
- Cymhwyster Eiriolaeth Annibynnol (neu barodrwydd i weithio tuag ato) (hanfodol)

## Sgiliau a galluoedd / cymwyseddau

Bydd deiliad y swydd yn gallu :

- Cynhyrchu canlyniadau o safon mewn modd amserol sy'n canolbwyntio ar y gwasanaeth ac yn ymrwymo i gyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt.
- Cydweithio'n dda â chydweithwyr a phartneriaid a chydabod gwahanol syniadau, safbwyntiau a chefnidiroedd pobl eraill
- Cynllunio a threfnu gwaith a rheoli amser yn effeithiol
- Cyfathrebu'n effeithiol h.y. mynegi gwybodaeth a syniadau mewn modd eglur, cryno a chywir; gwrando'n weithredol a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu.
- Bod yn agored i ddulliau gweithredu a syniadau newydd, ymateb yn gadarnhaol i newid ac addasu'n gyflym i sefyllfaoedd newydd
- Chwilio am gyfleoedd ar gyfer dysgu parhaus a thwf proffesiynol

## Gwybodaeth / Profiad

Bydd deiliad y swydd yn gallu dangos dealltwriaeth gadarn a chofnod o gyflawniad yn y meysydd canlynol:

- Gwaith Uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd mewn sefyllfaoedd cymhleth gan gynnwys diogelu
- Meithrin perthynas, partneriaethau, gwaith amlasiantaethol, datblygu cymunedol
- Cynllunio, arwain a chyflwyno darnau o waith uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc a /neu oedolion mewn modd cyfranogol
- Gwaith uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion Sipsiwn, Roma a Theithwyr.
- Darparu gwasanaethau cynghori / eiriolaeth
- Cefnogi plant / pobl ifanc ac oedolion yn y gymuned
- Materion sy'n wynebu cymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- Eiriolaeth
- Cyfranogaeth

## Arall

- Arddangos gwerthoedd ac ymddygiad TGP Cymru bob tro a mynd ati i'w hyrwyddo mewn eraill
- Ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth
- Trwydded yrru lawn a bod â cherbyd gennych chi (*Mewn rhai amgylchiadau gellir ystyried ymgeiswyr nad ydynt yn gallu gyrru o ganlyniad i anabledd.*)
- Y gallu i siarad Cymraeg (dymunol)